



## Datganiad Grant Datblygu Ysgol Carwe

Dyrennir y Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC.

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

1. nodi'r grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion a'i anghenion
2. cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. monitro a gwerthuso effaith adnoddau

Yn 2017/18 rhoddwyd i **Ysgol Carwe** ddyraniad **Grant Datblygu Disgyblion** o **£17,250 a GDDCS o £2,400.**

Yn **Ysgol Carwe** mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin ac ERW, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- wella dysgu ac addysgu drwy ddarparu rhaglen gefnogi - i deilwra'r cwricwlwm a gwella'r ddarpariaeth drwy gyfoethogi'r profidau a sgiliau disgyblion.
- darparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth y profwyd eu bod yn cael yr effaith fwyaf a'u bod yn gynaliadwy – megis “Llythrennau a synau / letters and sounds” i wella sgiliau llythrennedd a “Ditectifs Meddwl” er mwyn targedu ymddygiad a lles y disgyblion.
- cyflwyno a defnyddio systemau olrhain data i nodi anghenion dysgwyr, targedu ymyraethau a monitro effaith.
- gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, y gymuned a sefydliadau eraill – *Ysgolion Gwynfryn a Phonthenri*.
- gwella presenoldeb y grŵp targed drwy ddefnyddio ymyraethau – cyflogi **Swyddog Bws Cerdded**
- Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion mewn perthynas â sut rydym yn gwario'r grant ar gael trwy gais yn yr ysgol .



PENNAETH: MRS RHIAN W EVANS  
01269

860565(C) 860665(G) 860632(P)



rwevans@ysgolccc.org.uk

Cyllumiau Ysgolion Iech - Rheysbwaith Cymru

